# Bwrdd S4C
## Manyleb y Rôl: Aelodau Anweithredol o Fwrdd S4C
Tachwedd 2025

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn awyddus i benodi dau Aelod Anweithredol newydd i Fwrdd Sianel Pedwar Cymru (S4C).

**S4C**
S4C (Sianel Pedwar Cymru) yw'r unig ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus a darparwr cyfryngau Cymraeg pwrpasol yn y DU. Corfforaeth statudol yw S4C, cafodd ei sefydlu'n wreiddiol yn 1982 ac mae bellach yn cael ei rheoleiddio gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Darlledu 1990. Mae'n annibynnol ar lywodraeth y DU, yn weithredol ac yn olygyddol.

Mae S4C yn darparu gwasanaethau cyfryngau a chynnwys o ansawdd uchel yn y Gymraeg, gan gynnig adloniant, gwybodaeth ac ysbrydoliaeth sy'n ceisio cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl ar draws ystod o lwyfannau cyfoes ar hyd a lled Cymru, y DU a'r tu hwnt.

Dyletswydd Bwrdd S4C yw sicrhau bod S4C yn cynrychioli gwasanaeth cyhoeddus er mwyn dosbarthu gwybodaeth, addysgu ac adloniant. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli effeithiol, gan gynnwys rheolaeth ariannol, ar waith ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a masnachol S4C. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod annibyniaeth S4C yn cael ei diogelu.

Rhaid i Fwrdd S4C feddu ar ddealltwriaeth fanwl o ddatblygiadau ar-lein a darlledu, ac o'r rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru. Rhaid iddi hefyd ystyried mentrau diwylliannol a mentrau eraill wrth bennu ei strategaeth, gan gynnwys sefyllfa sosioieithyddol y Gymraeg.

Fel comisiynydd-ddarlledwr sydd ag ymrwymiad i'r sector cynhyrchu annibynnol, mae S4C yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi greadigol yng Nghymru. Daeth ymchwil annibynnol i'r casgliad bod cyfraniad economaidd 2024–25 S4C wedi arwain at 2,500 o swyddi ac wedi cynhyrchu £150m ar gyfer economi Cymru. S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithiol yn y DU, gyda chost yr awr sylweddol is na darlledwyr eraill ac mae ei gweithgareddau hefyd yn cynhyrchu refeniw treth sy'n fwy na'r arian mae'n ei gael.

Mae rhagor o wybodaeth am S4C ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad o Gyfrifon.
https://www.s4c.cymru/cy/amdanom-ni/page/adroddiadau-blynyddol

**Cyfansoddiad S4C ac Aelodaeth y Bwrdd**

Mae Bwrdd S4C yn cynnwys y Cadeirydd a hyd at wyth aelod anweithredol arall, pob un wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ar ben hynny, mae Prif Weithredwr S4C a hyd at ddau aelod gweithredol arall yn aelodau o'r Bwrdd. Penodir yr aelodau gweithredol i'r Bwrdd gan yr aelodau anweithredol.

Mae Bwrdd S4C yn ei gyfanrwydd yn penodi un o'r aelodau anweithredol i wasanaethu fel Aelod Annibynnol Arweiniol.

Yn dilyn yr adolygiad annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, mae trefn lywodraethu S4C bellach yn seiliedig ar fodel bwrdd unedol (yn lle'r Awdurdod anweithredol blaenorol).

Nid oes gwahaniaeth cyfreithiol rhwng aelodau anweithredol a gweithredol Bwrdd S4C – mae'r ddau gategori yr un mor gyfrifol ac atebol am lwyddiant hirdymor y sefydliad.

Mae pob aelod yn dod â sgiliau a phrofiad amrywiol i'r Bwrdd, er bod disgwyl i bob un ohonynt sicrhau bod S4C yn cyflawni ei chylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a bod arian cyhoeddus a chyllid ffi'r drwydded a ddyrennir i S4C yn cael eu defnyddio'n briodol.

Mae gofyn i aelodau'r Bwrdd hefyd sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus S4C yn cael eu darparu yn unol â chylch gwaith statudol S4C a darpariaethau'r Cytundeb Partneriaeth presennol y mae S4C a'r BBC wedi cytuno arno rhyngddynt.

Ymysg eu dyletswyddau, disgwylir i holl aelodau Bwrdd S4C wneud y canlynol:

- Gweithredu ar y cyd fel bwrdd unedol a darparu cefnogaeth a chyngor, yn ogystal â chraffu a dwyn unigolion i gyfrif am berfformiad S4C a'i gweithgareddau;
- Cefnogi'r Cadeirydd, mewn cysylltiad â'r Prif Weithredwr, i oruchwylio perthynas S4C â DCMS, y BBC, Ofcom a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r sector cynhyrchu annibynnol.
- Ymgymryd â dyletswyddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ôl yr angen ar ran S4C, gan gynnwys mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru a thu hwnt;
- Cael dealltwriaeth drylwyr o waith S4C fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a darparwr cyfryngau, ac o'r sectorau teledu a digidol yng Nghymru, yn y DU ac mewn cyd-destun rhyngwladol; a
- Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac unrhyw gyfarfodydd arbennig / diwrnodau cwrdd i ffwrdd, a mynychu is-bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl yr angen, gan wneud cyfraniadau rhesymol ac adeiladol i drafodaethau, a rhannu eu harbenigedd wrth i gyfleoedd godi.

Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, disgwylir i aelodau Bwrdd S4C weithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy'n sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr sy'n trin pawb â pharch, gan fyw a hyrwyddo gwerthoedd S4C.

Rhaid i bob aelod gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus, sy'n cynnwys gweithredu'n unol â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, a Chod Diwylliant S4C.

Mae'r Ysgrifennydd yn cefnogi gwaith y Bwrdd drwyddo draw.

**Anghenion penodol Aelodau Anweithredol o Fwrdd S4C**

Rhaid i aelod anweithredol weithredu mewn modd annibynnol a gwrthrychol, gan ddod ag arbenigedd i waith y Bwrdd, yn ogystal â chraffu arno a'i herio, i gefnogi a chyfrannu at gyfeiriad strategol a llywodraethu'r sefydliad.

Rôl yr aelod anweithredol yw darparu gwybodaeth, arbenigedd a goruchwyliaeth heb fod yn rhan o weithrediadau o ddydd i ddydd. Wrth wneud hynny, dylai ddarparu her adeiladol, arweiniad strategol, cynnig cyngor arbenigol a dal rheolwyr gweithredol i gyfrif. Dylai hefyd barchu gwybodaeth a mewnbwn aelodau gweithredol Bwrdd S4C, lle maent yn defnyddio eu harbenigedd o'u swyddi yn yr Uwch Dîm Arwain yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Dyma brif gyfrifoldebau aelodau anweithredol o Fwrdd S4C:

- Canllawiau Strategol: Cydweithio â'r Uwch Dîm Arwain a chyd-aelodau'r Bwrdd mewn ffordd anweithredol i ddatblygu ac adolygu amcanion, cynlluniau a mentrau strategol y sefydliad.
- Llywodraethu: Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, rheoliadau a safonau llywodraethu corfforaethol perthnasol. Adolygu a chymeradwyo polisïau a gweithdrefnau corfforaethol pwysig.
- Rheoli Risg: Asesu a monitro proffil risg y sefydliad, gan gynnwys risgiau ariannol, gweithredol, cyfreithiol ac enw da. Cyfrannu at strategaethau lliniaru risg.
- Goruchwyliaeth Ariannol: Adolygu a dadansoddi datganiadau ariannol, cyllidebau a dangosyddion perfformiad allweddol i asesu iechyd a pherfformiad ariannol y sefydliad.

- Penodi a Chynllunio Olyniaeth: Cymryd rhan yn y broses o ddewis a phenodi Prif Weithredwr, Ysgrifennydd ac uwch swyddogion gweithredol. Cyfrannu at waith cynllunio olyniaeth ar gyfer rolau arwain allweddol.
- Gwerthuso Perfformiad: Cymryd rhan yn y gwaith o werthuso perfformiad y Bwrdd (gan gynnwys perfformiad holl aelodau'r Bwrdd yn unigol), a'r Uwch Dîm Arwain.
- Cysylltiadau Rhanddeiliaid: Ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â phryderon a chyfleu cyfeiriad a pherfformiad strategol y cwmni.
- Ymddygiad Moesegol a Chyfrifol: Hyrwyddo ymddygiad moesegol a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn y sefydliad. Cynnal y safonau uchaf o ran gonestrwydd a thryloywder.
- Gwrthdaro Rhwng Buddiannau: Datgelu unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau ac ymatal rhag pleidleisio a/neu gyfrannu at drafodaethau ar faterion lle gallai gwrthdaro fodoli.
- Addysg Barhaus: Bod yn ymwybodol o dueddiadau'r diwydiant, newidiadau rheoleiddiol, ac arferion gorau o ran llywodraethu corfforaethol drwy addysg a hyfforddiant parhaus.
- Mynychu unrhyw hyfforddiant priodol a drefnir ar gyfer aelodau Bwrdd S4C yn weddol reolaidd.

Mae nifer o'r cyfrifoldebau allweddol uchod yn cael eu cyflawni ar y cyd ag aelodau gweithredol y Bwrdd, gyda chefnogaeth yr Ysgrifennydd.

**Meini Prawf Hanfodol**

Rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer rolau Aelodau Anweithredol allu dangos:
- **Gwybodaeth:** dealltwriaeth glir o waith, blaenoriaethau a heriau S4C a darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn fwy cyffredinol, a'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo.
- **Meithrin cysylltiadau:** gallu meithrin cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid, gan gynnwys Gweinidogion ac Uwch swyddogion y Llywodraeth, gyda Llywodraeth Leol a Rhanbarthol a rhanddeiliaid allanol fel y BBC a chwmnïau cynhyrchu annibynnol.
- **Cyfathrebu:** sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf gyda'r gallu i wrando, derbyn heriau, a herio eraill yn adeiladol mewn trafodaethau gydag eglurder a pharch.
- **Cydweithio:** gallu gweithio'n agos gydag aelodau eraill o'r Bwrdd a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan ddarparu cymorth, her adeiladol, a sicrwydd fel y bo'n briodol.
- **Cydraddoldeb:** ymrwymiad amlwg i amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant; a gwella cyfleoedd i bobl ledled y DU.

Nid yw profiad blaenorol o fyrddau anweithredol yn hanfodol. Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion y mae eu cefndiroedd proffesiynol amrywiol yn dod â sgiliau trosglwyddadwy a safbwyntiau ffres.

Byddem yn croesawu'n arbennig geisiadau gan unigolion sydd â phrofiad perthnasol yn un o'r meysydd canlynol:

- **Profiad o Gynnwys Digidol:** hanes cryf o gyflawni ym maes darlledu, cyfryngau digidol, y diwydiannau creadigol ehangach neu faes cysylltiedig arall; yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol.
- **Arbenigedd cyfreithiol:** Arbenigedd cyfreithiol sylweddol, yn fwyaf tebygol o fod wedi'i ennill naill ai mewn cwmni cyfreithiol neu fel cwnsler mewnol mewn sefydliad masnachol, y Llywodraeth neu sefydliad di-elw.

Mae'r Bwrdd yn cynnal y rhan fwyaf o'i fusnes yn Gymraeg ac felly bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddangos hyfedredd yn y Gymraeg, a fydd yn cael ei brofi yn y cyfweliad. Bydd gofyn i

ymgeiswyr ateb o leiaf un cwestiwn yn Gymraeg. Mae S4C yn gallu darparu rhywfaint o gefnogaeth i'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn rhinwedd eu gwaith proffesiynol.

**Ymrwymiad Amser**
Yr ymrwymiad amser ar gyfer aelodau'r Bwrdd yw un diwrnod yr wythnos.

**Lleoliad Cyfarfodydd**
Mae Bwrdd S4C yn cyfarfod tua wyth gwaith y flwyddyn ym mhencadlys S4C yng Nghaerfyrddin, neu yn ei swyddfeydd eraill yng Nghaernarfon a Chaerdydd, er y gall y Bwrdd hefyd gyfarfod mewn lleoliadau eraill yn ystod y flwyddyn. Bydd yr Aelodau hefyd yn cael eu gwahodd i fynd i ddigwyddiadau ymgysylltu corfforaethol ac allanol yn y diwydiant o bryd i'w gilydd.

**Taliadau**
£9,650 y flwyddyn. Gellir hawlio treuliau rhesymol yn amodol ar bolisi Teithio a Chynhaliaeth S4C.